

Pam mae prisiau ynni'n codi?

Factsheet 108 14.10.11

www.ofgem.gov.uk

Mae defnyddwyr yn wynebu cyfnod economaidd anodd gan gynnwys prisiau ynni uwch. Mae'r daflen ffeithiau hon yn egluro pam mae prisiau ynni'n codi.

Sut mae prisiau ynni'n gweithio


Mae'r pris rydych yn ei dalu am eich ynni yn dibynnu ar sawl peth. Mae tua hanner eich bil yn talu am gost cyfanwerthu nwy a thrydan, ond mae hefyd yn cynnwys cost dosbarthu, costau trawsyrru, treth y llywodraeth (TAW), costau amgylcheddol a chostau'n ymwneud â mesuryddion - yn ogystal â chostau cyflenwi ac elw eich cwmni ynni.

Er bod y costau amgylcheddol a'r costau rhywdwaith yn cynyddu, costau ynni cyfanwerthol, sy'n gallu amrywio'n fawr ac sy'n dibynnu ar brisiau byd-eang, sy'n cael yr effaith fwyaf ar filiau ynni. Mae'r daflen ffeithiau hon yn ystyried y ffactorau sy'n gyfrifol am y cynnydd mewn prisiau ynni yn fanylach.

Beth sy'n codi prisiau ynni

Prisiau nwy uwch sydd wedi bod yn bennaf cyfrifol am y cynnydd mewn biliau ynni dros yr wyth mlynedd diwethaf. Fel y dengys y graff isod, bu Prydain yn ffodus i weld lleihad mewn prisiau nwy tan 2004/05. Dyma'r flwyddyn y dechreuodd Prydain fewnforio mwy o nwy nag yr oedd yn ei gynhyrchu ei hun. Am ei bod yn dibynnu mwy ar nwy wedi'i fewnforio, mae prisiau nwy ym Mhrydain wedi dod o dan ddylanwad digwyddiadau byd-eang yn gynyddol, yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar y prisiau olew gan fod prisiau nwy Ewrop yn aml yn gysylltiedig â phris olew.

**Prisiau Nwy Credyd Safon
Hanesyddol Mehefin 1986
- Medi 2011**



Graff wedi'i ddiweddarau yn seiliedig ar lefelau defnydd cyfartalog diwygiedig o 16500 kWh fesul cwsmer, y flwyddyn ar gyfer tariff safonol. Dadansoddiad Ofgem o ddata gan TheEnergyShop.com o 2003 i 2011, mae data cyn y dyddiad hwn yn eiddo i Ofgem.

Bellach mae pris olew yn ffactor pwysig sy'n rheoli prisiau nwy Prydain Fawr. Y rheswm am hyn yw bod angen i Brydain ddenu llifioedd nwy drwy'r piblinellau sy'n cysylltu Prydain â Gwlad Belg a Norwy yn ystod cyfnodau o alw uchel yn y gaeaf. Ac er mwyn denu'r nwy hwn, rhaid i bris Prydain Fawr fod o leiaf gymaint â phris nwy ar dir mawr Ewrop. Gan fod pris nwy ar dir mawr Ewrop wedi'i gysylltu â phris olew i raddau helaeth, mae prisiau nwy ym Mhrydain hefyd yn dibynnu ar bris olew.

Cynhyrchir cyfran fawr (35-50%) o drydan ym Mhrydain Fawr drwy losgi nwy. Ac am mai costau'r tanwyddau a ddefnyddir i gynhyrchu'r trydan sy'n cyfrif am tua 50% o'r pris trydan cyfanwerthol, bydd newidiadau mewn prisiau nwy yn cael effaith sylweddol ar


Beth arall sy'n effeithio ar brisiau?

Rydym yn amcangyfrif rhwng nawr a 2020 bod angen i Brydain fuddsoddi hyd at £200 biliwn er mwyn cyrraedd ei thargedau amgylcheddol a sicrhau cyflenwadau ynni. Ar hyn o bryd, mae cost rhaglenni amgylcheddol ac effeithlonrwydd ynni'r Llywodraeth yn ychwanegu tua £100 at bob bil ynni cyfartalog o £1,300. Fodd bynnag, drwy ddibynnu mwy ar danwyddau nad ydynt yn danwyddau ffosil fel niwclear ac ynni adnewyddadwy, gallai Prydain ddibynnu llai ar fewnforion nwy.

Mae'r Llywodraeth yn cynnig diwygiadau mawr i'r diwydiant trydan ar hyn o bryd, er mwyn denu'r buddsoddiad sydd ei angen i gael gwared ar hen orsafoedd niwclear a gorsafoedd ynni glo nad ydynt yn cyrraedd safonau allyriadau'r UE a chodi rhai newydd yn eu lle.

Bydd yn rhaid i gostau rhwydwaith, sy'n cyfateb i tua 20 y cant o'ch bil, gynyddu hefyd. Rydym yn amcangyfrif y bydd angen gwario tua £30 biliwn ar ein rhwydweithiau ynni dros y deng mlynedd nesaf er mwyn gosod seilwaith newydd yn lle'r hen seilwaith, cefnogi'r newid i economi carbon isel a chysylltu â chyflenwadau nwy newydd. Bydd hyn yn arwain at gynydd o tua £60 mewn costau rhwydwaith dros y deng mlynedd nesaf.

Cymharu contractau prisiau nwy gaeaf yn 2010 a 2011



Beth yw dyfodol cyflenwadau nwy?

Mae'r graff isod yn dangos y pris nwy y gaeaf hwn, o gymharu â'r llynedd. Yn y tymor byr, mae prisiau nwy wedi codi o ganlyniad i sawl ffactor:

- Mae pris olew yn uchel o gymharu â phrisiau hanesyddol. Mae galw cynyddol o wledydd datblygol, yn enwedig Tsieina, wedi helpu i godi prisiau olew dros y degawd diwethaf.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae prisiau olew wedi parhau i fod yn uchel yn sgîl y 'Gwanwyn Arabaidd', a effeithiodd ar gynhyrchiant olew yn Libya ac a gododd bryderon y gallai ansefydlogrwydd yn y prif wledydd eraill sy'n cynhyrchu olew yn y rhanbarth effeithio ar gynhyrchiant ymhellach.
- Efallai hefyd bod y tswnami a darodd Japan eleni a'r cyfleusterau niwclear a gaewyd yn sgîl hynny wedi effeithio ar bris nwy Prydain Fawr. Mae'r digwyddiad wedi peri i Japan alw am fwy o gyflenwadau o Nwy Naturiol Hylifedig (LNG), gan roi pwysau ar brisiau LNG yn fyd-eang. Dros fisoedd yr haf eleni, daeth traean o gyflenwadau nwy Prydain Fawr o gyflenwadau LNG; mae prisiau LNG uwch yn fyd-eang yn debygol o arwain at gynydd mewn prisiau ym Mhrydain Fawr.

Yn rhannol o ganlyniad i'r ffactorau hyn, mae pris nwy gaeaf 2011/12 tua 40 y cant yn uwch na phris gaeaf diwethaf.

Mae marchnad ynni Prydain wedi buddsoddi dros £10 biliwn mewn cyfleusterau mewnforio newydd. Mae hyn yn golygu bod gan Brydain gymysgedd amrywiol iawn o ffynonellau nwy, yn amrywio o derfynellau LNG a all fewnforio nwy o bob cwr o'r byd, i biblinellau sy'n ein cysylltu â Norwy ac Ewrop.

Fodd bynnag, yn yr hirdymor bydd cyflenwadau nwy yn y dyfodol yn dibynnu ar y cyflenwad a'r galw byd-eang. Dau ffactor pwysig o ran y cyflenwad yw sut y caiff cyflenwadau o Rwsia a Chanolbarth Asia eu datblygu, ynghyd â'r effaith y gallai nwy siâl yn Ewrop ei chael ar gyflenwadau nwy. Bydd galw yn y dyfodol yn Asia a ledled y byd hefyd yn effeithio ar Brydain wrth i ni gystadlu yn y farchnad fyd-eang am gyflenwadau nwy.

Sut mae prisiau ynni ym Mhrydain yn cymharu â gweddill Ewrop?

Mae prisiau ynni domestig ym Mhrydain yn gymharol isel o hyd o gymharu â'r rhan fwyaf o wledydd Ewrop, ond nid yw'r data diweddaraf sydd gennym yn cynnwys yr holl gynydd diweddar mewn prisiau ym Mhrydain Fawr. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r cyfraddau treth amrywiol ledled Ewrop.

Safleoedd Cyfanswm Prisiau (Prisiau yn cynnwys ynni, dosbarthu a threthi) ar 1 Medi, 2011

Trydan (yn cynnwys pob treth)			Nwy (yn cynnwys pob treth)		
Safle	Dinas	Pris (€ cent/kWh)	Safle	Dinas	Pris (€ cent/kWh)
1 (drutaf)	Copenhagen	30.46	1 (drutaf)	Stockholm	20.84
2	Berlin	25.11	2	Copenhagen	12.16
3	Brwsel	23.03	3	Rhufain	8.17
4	Madrid	20.91	-	Cyfartalog	8.03
5	Dulyn	19.85	4	Brwsel	7.52
6	Fienna	19.39	5	Fienna	7.33
-	Cyfartalog	18.99	6	Berlin	7.07
7	Stockholm	18.34	7	Athen	7.01
8	Lisbon	18.09	8	Madrid	6.88
9	Dinas Lwcsembwrg	17.84	9	Amsterdam	6.58
10	Amsterdam	17.82	10	Dinas Lwcsembwrg	6.41
11	Rhufain	16.59	11	Paris	6.47
12	Llundain	15.32	12	Lisbon	6.16
13	Helsinki	15.17	13	Dulyn	5.13
14	Paris	13.92	14 (rhataf)	Llundain	4.74
15 (rhataf)	Athen	12.95			

Ffynhonnell: E-Control a VaasaETT

Rôl Ofgem

Fel rheoleiddiwr nid ydym yn rheoli prisiau - y cyflenwyr ynni sy'n gyfrifol am benderfynu ar brisiau. Ein rôl yw hyrwyddo cystadleuaeth a rheoleiddio lle bo angen er mwyn diogelu buddiannau defnyddwyr. Mae hyn yn golygu nad ydym yn rheoleiddio prisiau manwerthu, yn hytrach rydym yn sicrhau bod y farchnad yn gystadleuol er mwyn dwyn pwysau ar brisiau, elw ac ansawdd gwasanaethau.

Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd i ddefnyddwyr am y cysylltiad rhwng prisiau manwerthu a chyfanwerthu.

Cynlluniau ar gyfer diwygio

Daeth ein hymchwiliad diweddar i'r farchnad ynni i'r casgliad bod cwmnïau ynni yn methu defnyddwyr drwy lesteirio cystadleuaeth drwy gyfuniad o gymhlethdod ynghylch tariffau, ymddygiad gwael ymhlith cyflenwyr a diffyg tryloywder.

Dangosodd hefyd mai tameidiog fu ymateb cyflenwyr i'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ofgem yn dilyn ei hymchwiliad ynni yn 2008.

Rydym felly'n cynnig y dylid cyflwyno ffordd syml o gymharu tariffau er mwyn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddewis y fargen orau. Rydym hefyd yn cynnig y dylid lleihau dylanwad y Chwe Chyflenwr Mawr yn y farchnad drydan.

Yn ogystal â hyn rydym yn cynnig newidiadau mwy rhagnodol i fantolenni a biliau ynni blynyddol. Byddwn hefyd yn cyhoeddi canfyddiadau adroddiad annibynnol ar wneud cyfrifon cwmnïau ynni yn fwy tryloyw yn y Flwyddyn Newydd.

Ar gyfer ymholiadau cyhoeddus, cysylltwch â'r:

Tîm Materion Defnyddwyr 020 7901 7295 ebost: consumeraffairs@ofgem.gov.uk

Ar gyfer ymholiadau'n ymwneud â'r cyfryngau, cysylltwch â:

Lydia Fitzpatrick, Uwch Reolwr Cyfathrebu 020 7901 7419 ebost: lydia.fitzpatrick@ofgem.gov.uk
Chris Lock, Swyddog y Wasg 020 7901 7225 ebost: chris.lock@ofgem.gov.uk